Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **20-09-B09** |
| **Noddir y Papur Gan:** | **Prys Davies**<br>Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Datblygiad |
| **Cyflwynir y Papur Gan:** | **Julie Newton**<br>Arweinydd Tîm Adnoddau Dynol |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | Cytuno ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol a datblygu cynllun penodol i CNC sy'n cefnogi'r broses o'i roi ar waith. |
| **Argymhelliad:** | Cymeradwyo ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol |

**Y Mater Dan Sylw**

1. Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ar gyfer 2015-2019 estyniad o flwyddyn i 2020 fel ein bod yn gyson â chyrff cyhoeddus partner. Bwriad hyn oedd ein galluogi i weithio gyda chyrff cyhoeddus partner ar CCS newydd, yn unol â'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. Yn ystod 2019-20, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyhoeddus canlynol:

    - Cyngor Celfyddydau Cymru
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
    - Gyrfa Cymru
    - Estyn
    - Addysg a Gwella Iechyd Cymru
    - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
    - Amgueddfa Cymru
    - Chwaraeon Cymru
    - Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
    - Comisiynydd y Gymraeg
    - Awdurdod Cyllid Cymru

3. Rhoddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gymorth i'r un corff cyhoeddus ar ddeg ddatblygu'r amcanion strategol a rennir sydd wedi'u hamlinellu yn yr CCS arfaethedig. Hefyd, cynhaliodd Diverse Cymru ymgynghoriad cyhoeddus cydgysylltiedig am gyfnod o naw wythnos rhwng 25 Tachwedd 2019 a 26 Ionawr 2020. Cynhaliwyd cyfanswm o bedwar digwyddiad cyhoeddus ledled Cymru rhwng 26 Tachwedd a 2 Rhagfyr, a chynhaliodd CNC un o'r digwyddiadau yn Aberystwyth.

4. Canlyniad y cydweithredu hwn fu datblygu set o Amcanion Cydraddoldeb a Rennir i helpu i gyflawni wyth nod strategol Llywodraeth Cymru. Mae Atodiad A yn dangos yr amcanion a rennir. Bwriad yr wyth nod strategol hyn yw helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau

ledled Cymru a nodwyd gan adroddiad diweddaraf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach?'.

5. Er mwyn cydymffurfio â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus mae angen i ni gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn diwedd mis Medi. Oherwydd Covid-19, mae'r dyddiad hwn wedi cael ei estyn o fis Mawrth.

6. Rhannwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft â'r Bwrdd ym mis Mawrth. O ganlyniad i'r drafodaeth honno, cytunwyd bod gweithgor bach, a fyddai'n cynnwys Zoe Henderson, Julia Cherret, Catherine Brown, Prys Davies, Gareth O'Shea a Steve Burton, yn mynd ati i ystyried pa un a oedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn addas i'r diben ai peidio, o'i gymharu ag amcanion y Cynllun Corfforaethol, ac, yn fwy pwysig, yn ystyried ym mha fodd yr ydym yn sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan gynhenid o ddiwylliant a ffordd CNC o weithio.

**Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol Diwygiedig**

7. Mae'r gweithgor wedi cwrdd ar sawl achlysur. Mae'r trafodaethau wedi tynnu sylw at y ffaith bod gennym fan cychwyn da o ran ein hymgysylltiad ag amrywiaeth o randdeiliaid, er ein bod wedi cydnabod y gallai hyn fod yn gul. Mae gennym amrywiaeth o grwpiau rhwydwaith mewnol, ac mae ein gwerthoedd yn cefnogi'r holl waith hwn, ac ati.

8. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod arnom angen mynegiad strategol mwy eglur o ran y modd y gall ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol yn y sefydliad. Ystyrid bod ymgorffori cynhwysiant yn ein gwaith bob dydd, yn enwedig o ran y modd yr ydym yn ymgysylltu â phob elfen o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, yn hollbwysig. Mae'r Grŵp yn credu y dylem ddefnyddio'r Amcanion Cydraddoldeb a Rennir (**Atodiad 1**) yn sail ar gyfer datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol penodol i CNC, ac roedd hefyd yn credu bod sicrhau cymorth arbenigol allanol i'n helpu i ddatblygu ein cynllun strategol yn rhywbeth hynod o ddymunol.

9. Mae'r gweithgor hefyd wedi dod i'r casgliad y dylai'r Amcanion Cydraddoldeb a Rennir (**Atodiad 1**) gael eu mabwysiadu i ffurfio Cynllun Cydraddoldeb Strategol CNC, a hynny fel y gallwn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae hyn yn debyg i'r modd y mae partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus wedi defnyddio'r amcanion a rennir.

10. Mae'r camau gweithredu a'r amserlenni ar gyfer datblygu cynllun CNC fel a ganlyn:

| Pryd | Beth? | Canlyniad Disgwyliedig |
|---|---|---|
| Medi | Comisiynu cymorth allanol | Ein helpu i ddatblygu cynllun i sicrhau ein bod yn ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant i fod yn rhan gynhenid o ffordd CNC o weithio gyda chymunedau, ac yn rhan o'n diwylliant |
| Hydref/Tachwedd | Gweithio gyda grwpiau rhwydwaith mewnol cyfredol a sesiynau ymgysylltu â staff | Bydd gan staff a rhanddeiliaid lais yn y cynllun |
| Rhagfyr | Cwblhau'r cynllun | Cynllun gweithredu pedair blynedd |
| Bwrdd Mis Ionawr | Cyflwyno'r cynllun i'r Bwrdd | Cymeradwyaeth |

11. Wedi i'r cynllun gweithredu gael ei ddatblygu, bydd yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Gweithgor, ac yna i'r Bwrdd, i'w gymeradwyo. Cynigir bod PaRC yn noddi ac yn goruchwylio datblygiad y cynllun hwn, a hynny gyda mewnbwn gan aelodau eraill y Bwrdd, os dymunant wneud hynny.

**Argymhellion**

12. Rydym yn argymell bod yr Amcanion Cydraddoldeb a Rennir (**Atodiad 1**) yn cael eu mabwysiadu i ffurfio Amcanion Cydraddoldeb Strategol CNC.

13. Rydym hefyd yn argymell bod y gwaith yn parhau i ddatblygu cynllun gweithredu llawn, a hynny gyda chymorth allanol i gynorthwyo'r broses o'i roi ar waith. Byddwn yn parhau i gynnwys y Gweithgor yn y broses o ddatblygu'r cynllun hwn, a'n nod yw dwyn y cynllun gorffenedig yn ei ôl erbyn mis Tachwedd 2020.

**Y Camau Nesaf**

14. Comisiynu cymorth allanol a chyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ein gwefan, a hynny gyda nodyn eglurhaol gan Clare Pillman (Prif Swyddog Gweithredol) a nodyn i ddweud bod y cynllun gweithredu ategol wrthi'n cael ei ddatblygu.

**Risgiau**

15. O wybod am y materion proffil uchel diweddar ynghylch hil ac amrywiaeth yn gyffredinol, nid ydym yn dod yn gyflogwr o ddewis nac yn sefydliad sy'n gwrando.

16. Rydym yn peidio â chyflawni ein Hamcanion Corfforaethol gan nad ydym yn gwrando ar y lleisiau amrywiol yn ein cymunedau.

17. Gallai fod yn anodd cael cymorth allanol da o fewn yr amserlenni.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

18. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb a Rennir, ac mae wedi'i atodi yn **Atodiad 2**.

**Mynegai o'r Atodiadau**

**Atodiad 1** – Amcanion Cydraddoldeb a Rennir
**Atodiad 2** – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb